



## SWYDD DDISGRIFIAD

<b>TEITL Y SWYDD:</b>	<b>DYLUNYDD GRAFFEG SY'N FYFYRIWR</b>
<b>RHEOLWR LLINELL:</b>	Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
<b>CYFLOG:</b>	£8.45 yr awr (Cyflog byw)
<b>ORIAU:</b>	Rhwng 4 – 10 awr yr wythnos (cytundeb dim oriau)
<b>DYDDIAD A YSGRIFENNWYD:</b>	2 Hydref 2017

### DIBEN Y RÔL

Mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yn chwilio am fyfyrwr sy'n ddylunydd dawnus i weithio ar gysyniadau creadigol er mwyn datblygu amrywiaeth o ddeunydd (logos, posteri, taflenni, dyluniadau gwe, baneri Facebook ayyb). Wrth ddefnyddio meddalwedd megis Adobe Photoshop, InDesign ac Illustrator (neu feddalwedd gywerth), bydd deilydd y rôl yn cynorthwyo'r Adran Gyfathrebu ac Ymgysylltu wrth greu dyluniadau ar gyfer amrywiaeth eang o ymgyrchoedd a hyrwyddiadau.

Bydd y rôl hon ar gytundeb 0 awr, a bydd disgwyl i ddeilydd y rôl weithio o bellter ar brosiectau. Mae'n bosibl y bydd angen gweithio yn y swyddfa â rhybudd cytûn.

Dylech fod yn fyfyrwr cofrestredig presennol ym Mhrifysgol Aberystwyth i wneud cais. Bydd gofyn i ddeilydd y rôl i gynhyrchu dyluniadau yn ystod gwyliau'r Brifysgol hefyd.

### DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i greu graffeg creadigol yr Undeb (digidol a phrint) ar gyfer amrywiaeth eang o ymgyrchoedd a mentrau.
- Sicrhau cysondeb wrth fformatio a dylunio drwy'r amser
- Cadw at y canllawiau brand a'r polisi dwyieithrwydd drwy'r amser
- Sicrhau eich bod yn cyfathrebu'n glir ac yn cyflawni gwaith yn brydlon ac ar amseroedd dibynadwy

## Dyletswyddau Eraill:

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau UMAber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill
- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

## NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deilydd y swydd.

*Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.*

## MANYLEB Y PERSON - DYLUNYDD MYFYRWYR

MEINI PRAWF	Angenrheidiol
Profiad o ddefnyddio Adobe InDesign/Photoshop/Illustrator (neu feddalwedd gywerth)	Hanfodol
Portffolio cryf sy'n dangos arddull a chreadigrwydd	Hanfodol
Brwdfrydedd am ddylunio graffeg a meddwl creadigol	Hanfodol
Gallu i weithio'n agos at fanyleb ddylunio benodol	Hanfodol
Profiad o weithio ar amryw o brosiectau ar yr un pryd at derfynau amser tynn	Hanfodol
Gallu i weithio'n annibynnol ac yn hyblyg Sylw i fanylder	Hanfodol
Gallu i dderbyn adborth a rhoi gwelliannau ar waith	Hanfodol
Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm	Hanfodol
Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol
<b>GWERTHOEDD A MOESEG</b>	
Yr awydd i weithio mewn amgylchedd democrataidd dan arweiniad myfyrwyr ac i flaenoriaethu myfyrwyr	Hanfodol
Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal	Hanfodol
Yr awydd i weithio mewn amgylchedd sy'n gwasanaethu aelodaeth sy'n ddiwylliannol amrywiol	Hanfodol
Ymroddiad, agwedd gadarnhaol, allblyg a chyfeillgar, ynghyd â pharodrwydd i ymgymryd â thasgau	Hanfodol
Safonau uchel o ran gonestrwydd personol	Hanfodol